# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 5

DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 53 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, atodol, drosiannol neu arbed at ddibenion rhoi effaith lawn i un o ddarpariaethau'r Ddeddf hon, neu mewn cysylltiad â hi.

(2) Caiff y rheoliadau (ymysg pethau eraill) ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiad sydd wedi ei gynnwys yn y canlynol neu mewn offeryn a wnaed o dan y canlynol—

(a) Deddf Seneddol;

(b) Mesur neu Ddeddf y Cynulliad Cenedlaethol (gan gynnwys y Ddeddf hon).

(3) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (2) at ddeddfiad yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfiad sydd wedi ei phasio neu ei gwneud ar ôl pasio'r Ddeddf hon.

(4) Nid yw'r pŵer a ddyroddir gan yr adran hon wedi ei gyfyngu gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 53 mewn grym ar 30.4.2015, gweler **a. 56(1)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 53.